- Mae grŵp llywio sy'n cynnwys cynrychiolwyr CCGC ac eraill yn llunio canllawiau arferion da ar gyfer gwirfoddolwyr sy'n cefnogi cynhalwyr.
- Ymchwil er mwyn gweld i ba raddau y mae gwirfoddolwyr yn defnyddio NVQs.
- Seminarau yng ngogledd a de Cymru er mwyn cyflwyno mudiadau gwirfoddol i Fuddsoddwyr mewn Pobl a'r Ymgyrch Siarter Rheolaeth.
- Bydd gwaith rhagarweiniol i edrych ar safonau cenedlaethol ar gyfer y sector yn datblygu yn 1996/97.
- Bydd CCGC yn targedu Aelodau Seneddol ac Aelodau

Seneddol Ewropeaidd er mwyn iddynt godi materion y sector gwirfoddol ar lefel Gymreig a Phrydeinig.

- Bwrriedir cael rhwydwaith cefnogol ar gyfer mudiadau sy'n bwriadu defnyddio canllaw CGGC i ddatblygu polisiau dwyieithog.
- Mae prosiect peilot ar gyfer gwaith datblygu ymgyrch yn erbyn tlodi yn cael ei sefydlu mewn tair ardal awdurdod unedol.
- Bydd gwaith yn cael ei wneud hefyd er mwyn cynorthwyo grwpiau gwirfoddol a chymunedol i gael arian gan y Cynllun Datblygiad Strategol.
- Bydd cwricwlwm craidd yn cael ei ddatblygu ar gyfer hyfforddiant mewn gwaith cymunedol.
- Bydd prosiect ymchwil yn arolygu arian ar gyfer y sector gwirfoddol gan lywodraeth leol yn dilyn y newid i awdurdodau unedol.
- Mae CGGC yn ceisio gweithio gyda gwasanaethau cefnogol er mwyn datblygu safonau gwasanaeth.
- Bwrriedir gweithio gyda swyddogion trwyddedu awdurdodau unedol er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r materion sy'n ymwneud ag ymgyrchoedd twyllodrus sy'n honni eu bod yn codi arian at achosion da.
- Bydd CGGC yn herio arianwyr i edrych ar gynlluniau mwy creadigol a hyblyg er budd y sector.
- Bydd y tîm Ewropeaidd yn gweithio er mwyn diogelu a chynyddu arian Ewropeaidd a dderbynnir gan y sector.



Bydd CGGC yn targedu Aelodau Seneddol ac Aelodau Seneddol Ewropeaidd er mwyn hyrwyddo materion gwirfoddol yng Nghymru a'r DG. Mae'r llun yn dangos Dafydd Wigley, AS adeg lansio Manifesto'r sector gwirfoddol yng Nghymru.

Y prif themâu ...

Gwawr newydd mewn llywodraeth leol

Mae ad-drefnu llywodraeth leol wedi bod yn achos pryder yng nghefn ein meddyliau ers nifer o flynyddoedd, ond fel yr oedd y misoedd yn mynd heibio daeth i'r amlwg fel y brif thema ar gyfer 1995/96.

Mae ad-drefnu'r awdurdodau iechyd yn bum awdurdod mawr wedi bod yn newid sylweddol arall.

Yn ychwanegol at hyn, gallai cynlluniau'r Swyddfa Gymreig i ddatganoli arian sy'n cael ei ddefnyddio er mwyn ariannu cyrff cyffredinol cenedlaethol ar gyfer mudiadau gwirfoddol a rhai cynlluniau grantiau fod yn fygythiad pellach i nifer o grwpiau.

Yn ystod y cyfnod cyn y newidiadau bu CGGC yn gweithio'n gyson er mwyn sicrhau bod y mudiadau gwirfoddol yn barod ar eu cyfer.

Bu'n hyrwyddo'r arferion gwaith da a nodwyd yn **Anelu at amcanion cyffredin** gydag awdurdodau lleol er mwyn eu perswadio bod angen cynnwys mudiadau gwirfoddol yn eu cynlluniau strategol.

Gwelwyd cynnydd dramatig yn y baich gwaith eleni gydag oes yr hen awdurdodau lleol yn dirwyn i ben, yr awdurdodau iechyd yn cael eu had-drefnu a chyfnod newydd yn gwawrio.

Rhybuddiodd CGGC grwpiau gwirfoddol o'r dechrau bod angen iddynt fwrw golwg ar y cynlluniau darparu gwasanaeth drafft ar gyfer eu hardaloedd eu hunain ac ymateb iddynt.


Edrychodd CGGC ar gynlluniau darparu gwasanaeth pob un o'r 22 awdurdod unedol a thynnu sylw pob un o'r prif weithredwyr at ei bryderon. Roedd nifer o'r cynlluniau darparu gwasanaeth heb unrhyw gyfeiriad o gwbl at y sector gwirfoddol gan ddangos eu diffyg ymwybyddiaeth o rôl hanfodol mudiadau gwirfoddol.

Roedd datganiadau cyffredinol am y sector gwirfoddol mewn cynlluniau darparu gwasanaeth eraill ond dim byd sylweddol i'w cefnogi.

Yn gynnar yn 1996 cyhoeddodd CGGC - **Ad-drefnu llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol - y cam olaf** - gydag amserlen ar gyfer y cyfnod cyn yr ad-drefnu a rhestr wirio ar gyfer mudiadau gwirfoddol.

Bu'n bwrw ymlaen hefyd ag ymarfer olrhain â chroestoriad o fudiadau gwirfoddol er mwyn cael cipddarlun o'r modd y mae ad-drefnu llywodraeth leol yn effeithio arnynt.

Y prif ddarlun yn gynnar yn 1996, hyd at Ebrill, oedd un o anhrefn, oherwydd anwybodaeth ynglŷn ag ariannu.



Trodd yr ansicrwydd yn fwy a mwy o rwystredigaeth ac arswyd wrth i'r dyddiad a oedd wedi ei bennu ar gyfer yr ad-drefnu agosau. Dair wythnos cyn y dyddiad trosglwyddo, roedd un o bob tri grŵp gwirfoddol mewn sampl o 30 heb wybod faint o arian y byddent yn ei gael.

Yr un oedd profiad Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cynghori, Gofal am yr Henoed a mudiadau gwirfoddol eraill.

Gorfodwyd mudiadau nad oedd ganddynt lawer o arian wrth gefn i ddiswyddo staff.

Trefnodd CGGC ymgyrch arbennig yn y wasg yn annog awdurdodau lleol i:

- Gytuno ar arian trosiannol i grwpiau gwirfoddol hyd nes y gallai'r awdurdodau unedol gael eu tai i drefn;
- cytuno ar drefniadau ariannu ar gyfer mudiadau gwirfoddol y mae eu gwaith yn croesi ffiniau awdurdodau lleol;
- sefydlu trefniadau ymgynghori priodol gyda mudiadau gwirfoddol er mwyn sicrhau na fydd yr un argyfwng yn digwydd y flwyddyn ganlynol.

Mae canlyniad ad-drefnu llywodraeth leol yn dal i gael ei arolygu, ond mae rhyw gymaint o arwyddion bod cysylltiadau'n cael eu hailadeiladu.

Mae rhai awdurdodau wedi ymateb trwy fabwysiadu'r aferion da a amlinellwyd yn **Anelu at amcanion cyffredin**. Mae'r hadau'n cael eu hau er mwyn datblygu perthynas aeddfed lle bydd y sector gwirfoddol yn cael ei gydnabod fel un sydd â rhan allweddol i'w chwarae yn y gymdeithas ac y byddir yn ymgynghori ag ef mewn modd ystyrlon ynglŷn â materion strategol.

Mae CGGC hefyd yn dal i arolygu cynlluniau'r Swyddfa Gymreig i ddatganoli arian y Llywodraeth i awdurdodau lleol er mwyn mesur pa effaith y bydd yn ei gael ar gyrrff cyffredinol cenedlaethol ac ar weinyddu grantiau.

Y prif themâu ... Y loteri ar ôl blwyddyn

Mae CGGC wedi dal i gadw llygad barcud ar effaith y Loteri Cenedlaethol ar y sector gwirfoddol.

Yn 1995/96 comisiynwyd y Polau Piniwn Cenedlaethol, trwy NCVO, i wneud gwaith ymchwil er mwyn canfod faint o arian yr oedd unigolion yn ei roi tuag at achosion da ar ôl i'r Loteri Cenedlaethol gael ei chyflwyno. Roedd yr ymchwil hefyd yn edrych ar farn pobl ynglŷn â'r loteri er mwyn gweld sut yr oedd y swm yr oeddent hwy'n ei feddwl oedd yn cael ei roi tuag at achosion da'n cyfateb i'r hyn a oedd mewn gwirionedd yn cyrraedd coffrau'r sector gwirfoddol.

Roedd y canlyniadau'n dangos gostyngiad sylweddol mewn rhoddion tuag at achosion da ar ôl cyflwyno'r loteri. O'r unigolion a gyfwelwyd, roedd nifer y rhai a oedd yn dweud eu bod yn dal i roi arian tuag at achosion da oddeutu bymtheg y cant yn llai, ac roedd y rhai hynny a oedd yn dal i gyfrannu'n rhoi llai. Roedd rafflau tuag at elusennau a chagliadau ar y stryd wedi dioddef yn enbyd.

Mae CGGC yn amcangyfrif bod elusennau yng Nghymru wedi colli tua £15 miliwn; disgwylir y bydd cyfraniadau gan Fwrdd Elusennau'r Loteri Cenedlaethol yn cyfateb i hyn. Ond nid yr elusennau hynny sydd wedi colli incwm a fydd, o anghenraid, yn derbyn grantiau.

Hyrwyddwyd y loteri'n gyson fel ffordd o ddarparu arian newydd i achosion da ond yn sicr nid felly y bu.

Yn ogystal â chomisiynu ei ymchwil ei hun, mae CGGC yn cynrychioli grwpiau gwirfoddol Cymreig ar y pwyllgor llywio ar gyfer ymchwil a riennir gan y Swyddfa Gartref.

Mae'r ymchwil hon yn cael ei gwneud dros gyfnod o ddwy flynedd a bydd yn canolbwyntio ar incwm i elusennau dros gyfnod hwy: Dair blynedd cyn cyflwyno'r loteri a thair blynedd ar ôl ei chyflwyno.

Bydd y prosiect yn casglu tystiolaeth yn uniongyrchol gan elusennau ac yn edrych yn fawr ar sampl o fudiadau elusennol mwy, yn ogystal â sampl gynrychioladol o floedd o fudiadau llai.

South Wales Evening Post, Friday, March 29, 1996

Thousands could be left out in the cold in local changeover

Bleak future for voluntary sector

In Focus

Volunteer groups in dark over funding

Reorganisation threatens voluntary groups' funds

VOLUNTARY groups who prize a people in helping tackle range of disabilities, people in need, cooking, and of assistance for Monday. Forsters have hit a funding crisis, brought about by a reorganisation of voluntary organisations, which will affect next week. **REGINALD** looks at the problems.

... could go and thousands people who rely on the voluntary sector could be left out cold. ... is the worrying scenario facing Wales as D-Day comes on Monday — when the authorities take power. ... the big handover saw only a few days away, there is growing concern among many organisations who do not know whether they are funded for the new financial year. ... have been left in the dark — are not happy about it. ... their umbrella body. ...

Mr Palmer said voluntary management committees were having to wrestle with some very tough decisions. "Many are calling crisis meetings and funding would help to stem the tide in sweeping through us groups," he said. The big fear is that some organisations will simply not survive because they are not big enough to ride them over until authorities make decisions on funding. Hundreds of charity organisations are just two weeks away from the end of the year.

UNIVERSITY ... HUNDREDS ...

... authorities risk the collapse of hundreds of voluntary organisations in a funding crisis brought about by local government reorganisation, charities warn. ... Wales Council for Voluntary Action (WCVA), the umbrella body for voluntary organisations, is now urging all voluntary authorities to fund six-month transitional payments to voluntary groups until the authorities can sort out longer term arrangements. ... If they fail to move quickly, voluntary services on which many people depend, could fold because they have little or no reserves. ... WCVA's office Mike Palmer, who is monitoring the situation closely, said: "When the Greater London Council was abolished, a lot of voluntary organisations collapsed. ... happened in London. In Wales we are ... and replaced



Mae nifer o brosiectau haeddiannol ledled Cymru wedi derbyn arian gan y Loteri. Ond er hyn nid yw'r Loteri wedi darparu arian newydd fel addewidwyd, a chredir bod elusennau llai yn dioddef, gyda rafflau a chasgliadau stryd yn arbennig yn dioddef.

Mae CGGC hefyd wedi rhoi tystiolaeth i ymchwiliad loteri'r Pwyllgor Treftadaeth Genedlaethol.

Dadlueodd CGGC yn ei gyflwyniad:

- Y dylai Cymru gael mwy o lais yn y modd y dosberthir yr arian gan y byrddau.
- Y dylid cael ffyrdd mwy hyblyg o ariannu prosiectau loteri trwy waddolion er mwyn i brosiectau gael sicrwydd o arian am dymor hir, yn hytrach na dibynnu ar grantiau unwaith ac am byth.
- Y dylid gostwng y dreth loteri o ddeuddeg ceiniog y bunt - yr uchaf yn Ewrop - a dosbarthu'r arian ychwanegol i achosion da.
- Y dylid sefydlu fforwm cyd-drefnu croesi er mwyn delio â cheisiadau am grantiau sy'n croesi ffiniau.
- Y dylai pob bwrdd loteri yng Nghymru fod yn atebol yng Nghymru.



Derbyniodd PPA Cymru grant o £424,000 dros dair blynedd gan y Loteri. Bydd yr arian yn cyllido prosiect gofal dydd cynhwysfawr yn Gibbonsdown, Y Bari a fydd yn cynnwys darpariaeth gofal dydd, gofal ar ôl ysgol, mentrau cyswllt i'r gymuned a datblygiad gofal plant.

Y prif themâu ... Ewrop a'r Dwyrain

- 600 o ymholiadau wedi eu hystyried
- 70 o sesiynau cynghori wedi eu cynnal
- 9 ymgyrch hyfforddiant ynglŷn ag Ewrop gan CGGC
- 20 gweithdy/cyflwyniad i fudiadau eraill

Bu'n flwyddyn lwyddiannus iawn o safbwynt ennill grantiau Ewropeaidd ar gyfer y sector. Dechreuwyd y rhaglenni ariannu ar gyfer Cymru wledig (amcan 5b) ac ar gyfer De Cymru (amcan 2) o'r diwedd, bron flwyddyn yn hwyr.

O ganlyniad gwelwyd cynnydd aruthrol yn yr adnoddau a ddaeth i mewn i'r sector, tua £14 miliwn - o'i gymharu â £3.5 miliwn y flwyddyn flaenorol. Mae 150 o fudiadau wedi elwa o'r grantiau.

Sefydlodd CGGC hefyd sianel i'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd ar gyfer ymgeisywyr o'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Rhoddwyd grantiau i dros 40 o brosiectau a'r cyfan yn werth mwy na £2 filiwn. Roedd dros hanner y prosiectau a gefnogwyd yn rhai a oedd yn ymgeisio am y tro cyntaf.

Yn ychwanegol at y gefnogaeth ymarferol i rai a oedd yn gwneud cais am grant, mae CGGC wedi bod yn ddylanwadol wrth gynllunio rhaglenni er mwyn ei gwneud yn haws i'r sector gwirfoddol gael gafael ar arian.

Rydym hefyd wedi ceisio dylanwadu ar yr oedi a geir cyn cymeradwyo a thalu arian Ewropeaidd. Amcangyfrifodd CGGC bod yr anawsterau hyn wedi arwain at gollu 355 o leoliadau hyfforddi a diswyddo tri pherson ar un rhaglen yn unig.

Cynorthwyodd CGGC yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i sicrhau £190,000 o gyllid Ewropeaidd dan y grantiau amgylcheddol newydd er mwyn sefydlu prosiect hyfforddi mewn cadwraeth amgylcheddol a choed-wigaeth. Darparwyd lle ar gyfer 70 o bobl ddiwaith ar stâd Colby Lodge ger Dinbych-y-Pysgod; stâd ym Mhenfro a stâd Dolaucothi ger Llanbedr-Pont-Steffan. Daeth bron hanner o'r rhai dan hyfforddiant o hyd i waith wedi iddynt gwblhau'r rhaglen.



Cysylltiadau â'r Dwyrain

Mae CGGC wedi bod yn lleadaenu ei orwelion ac yn edrych ar ffyrdd o ffurfio cysylltiadau â'r sector gwirfoddol sy'n datblygu yng Nghanolbarth a Dwyrain Ewrop.

Mae cysylltiadau wedi eu ffurfio erbyn hyn â'r sector gwirfoddol yn Belarus a chyfleoedd i gydweithio a chyfnwedd syniadau wedi eu creu rhwng Belarus a Chymru.

Cenhadaeth CGGC ...

Darparu cyngor, gwybodaeth a hyfforddiant

Cyngor

Bu'n staff yn delio â 2,525 o geisiadau am gyngor a gwybodaeth yn ystod y flwyddyn - 1,000 o ymholiadau yn fwy na'r disgwyl. Cynigiwyd cyngor ariannol, cyfreithiol a chyfansoddiadol ynghyd â chyngor ynglŷn â materion personél.

Gwybodaeth

Gwelwyd cynnydd eleni yn nifer y tanystrifwyr i wasanaeth ymwybyddiaeth gyfredol CGGC, gwasanaeth sy'n pwysu a mesur datblygiadau newydd sy'n effeithio ar y sector yn wythnosol.

Mae cylchrediad Rhwydwaith Cymru - cylchgrawn misol blaenllaw'r sector - hefyd wedi cynyddu wrth i nifer yr aelodau gynyddu.

Cynhyrchwyd taflenni gwybodaeth a phapurau cyfarwyddyd ar ad-drefnu'r awdurdodau iechyd, ad-drefnu llywodraeth leol, cysylltiadau ar gyfer yr awdurdodau lleol newydd, y cynllun datblygu strategol ac ymddiriedolaethau sydd wedi eu lleoli yng Nghymru ynghyd â chefnogaeth gan awdurdodau lleol i'r sector gwirfoddol.

Prif gyhoeddiad y flwyddyn oedd Llawlyfr Cyllido Cymru 95/96 a werthodd yn dda iawn ar ôl ei lansio ym mis Medi, ac sy'n agos iawn at gyrraedd ei darged gwerthiant ar gyfer y flwyddyn os nad rhagori arno.



- Deliodd CGGC â 2,500 o geisiadau am gyngor a gwybodaeth.
- Darparwyd deg ar hugain o ddiwrnodau hyfforddi.
- Treuliwyd 22 diwrnod yn darparu hyfforddiant mewnol a oedd wedi ei deilwrio ar gyfer mudiadau.
- Nododd 80 y cant o'r rhai a hyfforddwyd fod yr hyfforddiant yn foddhaol iawn.

Hyfforddiant

Roedd y gweithgareddau hyfforddi a ddarparwyd gan staff CGGC yn amrywio o hyfforddiant personél i gyfle cyfartal, defnyddio'r cyfryngau, iechyd a diogelwch a rheoli datblygiad.

Yn ychwanegol at hyn, mae'r mudiad wedi mabwysiadu rôl strategol a galluogol.

Ers Hydref 1995, bu'n hwyluso prosiect trefnu hyfforddiant yn y sector gwirfoddol. Mae hwn yn dwyn ynghyd groestoriad cynrychioladol o'r sector ac yn ceisio dadansoddi anghenion hyfforddiant a datblygiad y sector a sicrhau eu bod yn cael eu diwallu.

Ein cenhadaeth ...

Ymgyrchu a lobio

Mae CGGC yn cael ei ystyried fel llais y sector gwirfoddol yng Nghymru. Mae ymgyrchu a dwyn pwysau ar ran mudiadau gwirfoddol ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel Gymreig a Phrydeinig sy'n ymwneud â gwirfoddoli yn rhan hanfodol o'i waith.

Yn ystod y flwyddyn:

- Buom yn dwyn pwysau er mwyn gwrthdroi penderfyniad a fyddai wedi golygu na fyddai'r sector gwirfoddol yn cael ei gynrychioli ar Grŵp Technegol RECHAR sy'n goruchwyllo arian Ewropeaidd - gan ennill y dydd.
- Dwyn pwysau er mwyn sicrhau bod canllawiau'r Swyddfa Gymreig ar gyfer y Cynllun Datblygiad Strategol yn cynnwys cymal sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wario 15 y cant o'u dyraniad ar brosiectau cymunedol gwirfoddol - gan ennill y dydd.
- Dwyn pwysau gydag eraill er mwyn diddymu cynlluniau i adolygu rheolau budd-daliadau a fyddai wedi effeithio ar bobl ddi-waith ar gyrsiau hyfforddi'r sector gwirfoddol sy'n cael eu hariannu gan y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (ESF).
- Cyflwyno sylwadau o blaid gwirfoddoli i'r Llywodraeth mewn perthynas â'r rheoliadau ar gyfer y lwfans newydd ar gyfer y rhai sy'n chwilio am waith - gan ennill rhai manteision.



Mae Gweithdy Cymunedol Gabalfa nawr wedi ei hen sefydlu ond y mae wedi profi problemau ariannol tra'n aros i gyllid ESF gael ei brosesu. Dywedodd Barry Shiers, rheolwr y gweithdy: "Mae'n anhygoel y disgwyl i brosiectau weithio'n effeithiol a phroffesiynol tra'n aros chwech mis neu ragor i fewn i'r flwyddyn ariannol cyn derbyn 50 y cant o'r grant."

*Gobeithiaf y bydd CGGC yn parhau i ymgyrchu ar ran elusennau llai ledled Cymru er mwyn gwella ac addysgu'r sustem ynglŷn ag anghenion mudiadau bach.

Ein Cenhadaeth ...

Ymateb yn gadarnhaol i her

Ymgyrch cefn gwlad

Mae CGGC wedi buddsoddi mewn prosiect tair blynedd gwerth £100,000 i gefnogi ymgyrchoedd cymunedol mewn ardaloedd gwledig.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae CGGC wedi sefydlu'r Rhwydwaith Cefn Gwlad fel grŵp cefnogol ar gyfer mudiadau gwirfoddol, ac mae wedi bod yn gwneud gwaith ymchwil er mwyn gweld beth yw eu prif bryderon a'u diddordebau.

Cynhaliwyd cynhadledd yn Llandrindod ar gyfer cynrychiolwyr grwpiau gwirfoddol a chymunedol gyda'r bwriad o ddwyn ynghyd syniadau ynglŷn â'r hyn a ddylai gael ei gynnwys mewn Papur Gwyn ar gyfer cefn gwlad Cymru.

Ym mis Chwefror, cynhaliwyd cynhadledd yn Llandrindod ar y cyd â Grŵp Ymgynghorol Cludiant Cymunedol Cymru. Canlyniad y gynhadledd oedd penderfyniad i sefydlu cymdeithas cludiant cymunedol genedlaethol ar gyfer Cymru.



Prosiect gwrth-dlodi

Llywyddodd CGGC i sefydlu prosiect gwrth-dlodi yn dilyn cais llwyddiannus i Fwrdd Elusennau'r Loteri Cenedlaethol.

Ei nod yw datblygu cysylltiadau rhwng grwpiau cymunedol ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod grwpiau cymunedol yn dod yn bartneriaid llawn mewn strategaethau gwrth-dlodi.

Bydd swyddog datblygu gwrth-dlodi CGGC yn cysylltu â'r Fforwm Cenedlaethol Llywodraeth Leol yn erbyn Tlodi ac ag awdurdodau lleol. Bydd tair ardal beilot yn cael eu dewis er mwyn bwrw ymlaen â'r prosiect.

Mae'r swyddog datblygu cymunedol yn gweithio gyda chymdeithasau cefnogol ar gyfer grwpiau cymunedol ac yn edrych ar anghenion hyfforddi.



Rhoddydd grant o £450,00 a llog i Gymdeithas Byd Natur Dyfed gan Gronfa Gwirfoddol yng Nghymru i'w gynorthwyo i dalu treuliau gwirfoddolwyr ac offer adeg clirio olew y *Sea Empress*.

Yr iaith Gymraeg

Cwblhawyd rhan gyntaf prosiect yr iaith Gymraeg yn ystod y flwyddyn gyda 19 cymdeithas beilot yn datblygu polisiau dwyieithog. Mae panelau ymarfer da wedi eu sefydlu er mwyn helpu mudiadau i ddysgu o brofiad eraill. Cynhyrchwyd canllawiau, **O'n gwirfodd**, ac mae tros 3,000 o fudiadau wedi bod yn derbyn cylchlythyr yn rheolaidd.

Sefydlwyd panel cyswllt sector gwirfoddol gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg.


Mae CGGC wedi dechrau llunio ei gynllun ei hun ar gyfer yr iaith Gymraeg mewn ymateb i'r Ddeddf Iaith ac yn unol ag **O'n gwirfodd**.

Gwirfoddoli

Mae CGGC yn penodi dau weithiwr ychwanegol er mwyn helpu i hyrwyddo a datblygu nifer o'r ymgyrchoedd gwirfoddoli a ddechreuwyd eleni.

Arweiniodd Wythnos Wirfoddolwyr arbennig at gynnydd yn nifer yr ymholiadau a mwy o ymgyrchoedd ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Cynyddodd aelodaeth Fforwm Wirfoddoli Cymru i 200, a chynhaliwyd cyfres o weithgareddau hyfforddi ar gyfer trefnwyr gwirfoddolwyr, yn ogystal â chynllunio ail gynhadledd flynyddol.



Cronfa Gwirfoddoli yng Nghymru ac Ymddiriedolaeth Esmee Fairbairn

Cafwyd cynnydd o 19 y cant yn nifer y ceisiadau i Gronfa Gwirfoddoli yng Nghymru yn ystod y flwyddyn gyda chyfanswm o 110 o geisiadau'n cael eu gwneud. Gofynnwyd am fwy na miliwn o bunnoedd - gan gynyddu o £853,000 i £1,100,000.

Ymrwymwyd i gyfrannu tros £450,000 a gwnaethpwyd benthyciad hefyd i Cymdeithas Byd Natur Dyfed er mwyn eu cynorthwyo i dalu treuliau gwirfoddolwyr a phrynu offer ar gyfer y gwaith o glirio ar ôl yr olew a gollwyd o'r *Sea Empress*.

Roedd gan bwyllgor grantiau bychain Cymru Ymddiriedolaeth Elusennol Esmee Fairbairn £30,000 i'w ddsbarthu y llynedd. Cyfarfu'r panel bedair gwaith yn ystod y flwyddyn, gan ystyried 141 o geisiadau a chynnig grant i 101 ohonynt. Roedd eu gwerth yn amrywio o £100 i £600, ac aeth 22 grant i ogledd Cymru a 15 i'r canolbarth.

Consortia hyfforddi

Cynhaliwyd pum deg a dau o gyrsiau ar gyfer consortiwm hyfforddi gogledd, canolbarth a gorllewin Cymru, ar bynciau a oedd yn cynnwys sgiliau pwyllgor rheoli, cyllid, gweithio gyda gwirfoddolwyr a gweithio mewn cymdeithas ddwyieithog.

Hyrwyddo'r sector

Cyd-drefnodd CGGC y babell gweithredu gwirfoddol yn yr Eisteddfod yn llwyddiannus am y drydedd flwyddyn o'r bron. Mae llwyddiant y babell hon wedi ysgogi'r gymdeithas i wneud rhywbeth tebyg yn Sioe Frenhinol Cymru eleni.



Prosiect aseswyr llyeg

Recriwtiwyd dros bedwar ugain o bobl fel rhan o'r prosiect peilot hwn i gymryd rhan yn arolygon gwasanaethau cymdeithasol y Swyddfa Gymreig.

Gweithgor Cadw ar gapeli gweigion

Mae CGGC wedi hwyluso gweithgor a sefydlwyd gan CADW er mwyn adolygu capeli hanesyddol gweigion ac edrych ar natur unrhyw fygythiad. Disgwylir adroddiad manwl yn yr haf.

Golwg ar CGGC

Strwythur newydd

Mae CGGC wedi cael blwyddyn brysur. Mae prosiectau newydd yn dod i lif wedi golygu bod nifer y staff wedi cynyddu i 33. Cyflwynwyd sistem reoli a strwythur tîm newydd er mwyn dygymod â'r newid. Mae'r staff bellach yn gweithio fel rhan o saith tîm: Y gyfarwyddiaeth; cyfathrebu; gwirfoddoli a pholisi cymdeithasol; y gymuned a pholisi lleol; yr economi a'r polisi ariannu; ymchwil a gwybodaeth; cyllid a gweinyddiaeth. Mae chwe arweinydd tîm a'r cyfarwyddwr erbyn hyn yn ffurfio tîm rheoli.



Rhodri Morgan yn cyflwyno gwobr Buddsoddi mewn Pobl i Graham Benfield.

hennill yng Nghymru. Mae'r gymdeithas bellach yn edrych ar y safonau rheoli sydd wedi eu nodi yn y Fenter Siarter Rheoli.

Anrhydeddu'r cadeirydd

Cyflwynwyd yr OBE i gadeirydd CGGC, Marjorie Dykins, am wasanaethau i'r gymuned yng Nghymru yn rhestr Anrhydeddau'r Flyddyn Newydd. Mae wedi bod yn gweithio yn y sector gwirfoddol am flynyddoedd lawer, gan weithio gyda'r Gymdeithas Meithrinfeidd Cyn-ysgol a bod yn un o aelodau cyntaf Cymdeithas y Cyrff Gwirfoddol yn Wrecsam. Mae wedi bod yn ymwneud â CGGC am ddegawd a rhagor a hi yw cadeirydd y gymdeithas ers tair blynedd.



Adeiladau

Adnewyddwyd pencadlys CGGC yn Llys Ifor, Caerffili a'i ymestyn gyda'r bwriad o ddatblygu'r adeilad fel canolfan genedlaethol ar gyfer mudiadau gwirfoddol. Mae gan y Groes Goch Brydeinig, Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor, Anabledd Cymru ac Ymddiriedolaeth Ffibrsis Systig swyddfeidd yn y ganolfan.

Ariannwyd y gwaith o wneud yr estyniad i'r adeilad yn rhannol gan grant o £130,000 o Gronfa Datblygu Rhanbarthau Ewrop. Cafwyd arian gan ymddiriedolaethau

hefyd - £45,000 gan Ymddiriedolaeth Tudor, £20,000 gan Sefydliad Lankelly a £10,000 gan Ymddiriedolaeth Esme Fairbairn.

Edrych tuag allan

Eleni mae CGGC wedi bod yn ceisio gweld sut y mae aelodau a phobl sy'n gwneud penderfyniadau yn ein gweld, a sut y gallwn wella rhagor ar ein cyfathrebu.

Comisiynwyd Ysgol Fusnes Caerdydd i gynhyrchu dau adroddiad - y naill yn seiliedig ar gyfweiliadau gydag aelodau fel rhan o grwpiau ffocws a gynhaliwyd yn ne a gogledd Cymru, a'r llall yn seiliedig ar gyfweiliadau manwl gyda chroestoriad o bobl sy'n gwneud penderfyniadau.

Roedd yr adroddiadau'n cynnwys darlun cadarnhaol iawn o'r mudiad. Roedd yn cael ei hystyried fel un ddibynadwy ac awdurdodol, ac fel un a oedd mewn sefyllfa dda i weithredu fel cynrychiolydd y sector gwirfoddol. Roedd canmol mawr i'r cylchgrawn

Rhwydwaith Cymru a'r cyngor arbenigol a gynigir gan CGGC.



Jonathon Evans MP adeg lansio **Manifffesto'r sector gwirfoddol yng Nghymru**

Mewn ymateb i'r adroddiad, mae CGGC wedi cynyddu ei gyfathrebu gydag Aelodau Seneddol a phobl ddylanwadol eraill sy'n gwneud penderfyniadau ac erbyn hyn mae'n anfon papurau cyfarwyddo ar bynciau sydd o bwys i'r sector gwirfoddol atynt yn rheolaidd.

Mae camau wedi eu cymryd hefyd er mwyn cael gwel cyfathrebu â'r sector busnes. Mae CGGC wedi bod yn gweithio ar y cyd â Busnes yn y Gymuned a chwe chwmmi blaenllaw yng Nghymru ar brosiect sy'n dwyn y teitl **Cadw cwmni da**, gan lunio canllawiau ar gyfer perthynas waith rhwng mudiadau gwirfoddol a'r rhai sydd wedi eu lleoli yn y gymuned.

Fel rhan o'r adroddiad aeth CGGC ati hefyd i adolygu ei hunaniaeth gorfforaethol er mwyn adlewyrchu'r mudiad fel y mae heddiw a chynrychioli amrediad llawn y mudiadau gwirfoddol. Bydd CGGC yn adolygu ei holl gyhoeddiadau ac yn cyflwyno'r ddelwedd gyfoes fel y mae'r flyddyn yn mynd rhagddi.

Datganiad o weithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 1996

	Arian anghyfyngedig	Arian cyfyngedig	Cyfanswm yr arian 1996	Cyfanswm yr arian 1995
	£	£	£	£
Incwm a gwariant				
Adnoddau a dderbynnir				
Grantiau	450,847	384,435	835,282	453,355
Llai: Incwm gohiriedig	-	(12,139)	(12,139)	-
Incwm arall	167,062	-	167,062	138,170
Llog a dderbyniwyd ac incwm buddsoddi arall	25,244	-	25,244	21,331
Gwirfoddoli yng Nghymru	-	291,387	291,387	226,501
Cyfanswm adnoddau incwm	643,153	663,683	1,306,836	839,357
Adnoddau a wariwyd				
Elusennol uniongyrchol	428,873	423,971	852,844	650,765
Rheoli a gweinyddu'r elusen	220,408	230,983	451,391	180,875
Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd	649,281	654,954	1,304,235	831,640
Adnoddau net a dderbynnir/(a gaiff eu gwario) am y flwyddyn				
	(6,128)	8,729	2,601	7,717
Enillion/(colledion) ar fuddsoddiadau heb eu gwireddu	479	-	479	-
Darpariaethau nad oes mo'u hangen bellach	29,374	-	29,374	-
Symudiad net yn y cronfeydd	23,725	8,729	32,454	7,717
Balansau a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 1995	208,695	(10,090)	198,605	190,888
Balansau a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 1996	232,420	(1,361)	231,059	198,605

Crynodeb o gyfrif incwm a gwariant y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 1996

	1996	1995
	£	£
Incwm gros gweithrediadau parhaus	1,306,836	839,357
Incwm net gweithgareddau masnach anelusenol	-	-
Cyfanswm incwm gweithrediadau parhaus	1,306,836	839,357
Cyfanswm gwariant gweithrediadau parhaus	1,304,235	831,640
(Gwariant)/incwm net am y flwyddyn cyn newidiadau	2,601	7,717
Darpariaethau nad oes mo'u hangen bellach	29,374	-
Elw heb ei wireddu ar fuddsoddiadau	479	-
(Gwariant)/incwm net am y flwyddyn	32,454	7,717

Dadansoddiad o gyfanswm yr adnoddau a wariwyd:

	Costau staff	Eraill	Dibrisiad	Cyfanswm
	£	£	£	£
Gwariant elusennol uniongyrchol	331,054	501,047	20,743	852,844
Gwariant rheoli a gweinyddu	141,238	299,153	11,000	451,391
	472,292	800,200	31,743	1,304,235

Mantolen ar 31 Mawrth 1996

	1996		1995	
	£	£	£	£
Asedau sefydlog				
Asedau diriaethol		579,880		347,469
Asedau cyfredol				
Buddsoddiadau	121,131		120,652	
Dyledwyr a rhagdaliadau	13,333		37,327	
Arian yn y banc	205,674		232,898	
Arian mewn llaw	314		122	
	<u>340,452</u>		<u>390,999</u>	
Credydwyr: Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn	<u>259,289</u>	<u>81,163</u>	<u>242,361</u>	<u>148,638</u>
Asedau cyfredol net		661,043		496,107
Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn		-		-
Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a chodi taliadau:		<u>(75,000)</u>		<u>(75,000)</u>
		<u>586,043</u>		<u>421,107</u>
Cronfeydd wrth gefn				
Arian cyfyngedig		(1,361)		(10,090)
Arian anghyfyngedig		232,420		208,695
Cronfa ail-werthuso wrth gefn		354,984		222,502
		<u>586,043</u>		<u>421,107</u>

Gellir cael set lawn o'r adroddiadau a'r cyfrifon gan:

Mr D Morris, Ysgrifennydd y Cwmni, CGGC, Llys Ifor, Heol Crescent, Caerffili, CF83 1XL ffôn 01222 869224

I aelodau o Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru:

Ym marn yr archwilwyr, Messers Zeidman a Davis, mae'r crynodeb o'r cyfrifon a roddir yn y ddogfen hon yn gyson â'r cyfrifon blynyddol llawn. Roedd adroddiad y dadansoddwyr ar y cyfrifon llawn heb ei cymhwyso.

Zeidman a Davies, Cyfrifwyr Ardystiedig, Archwilwyr Cofrestredig, Ty Lawrence, Caerffili.

Strwythur y pwyllgor

Strwythur pwyllgorau Cadeirydd: Marjorie Dykins OBE

Pwyllgor Ewropeaidd

Pwyllgor cyllid ac
amcanion cyffredinol

Pwyllgor iechyd a diogelwch

Pwyllgor Cronfa
Gwirfoddoli yng Nghymru

Pwyllgor ymgynghorol polisi
(y gogledd a'r gorllewin)

Pwyllgor ymgynghorol polisi
(y de a'r dwyrain)

Pwyllgor gwaith

Llywydd: Iarll Lisburne
Trysorydd anrhydeddus: Mr W. P. Kitson
Cadeirydd: Mrs Marjorie Dykins, OBE
Is-gadeirydd: Ms Jane Hutt

Mr Phil Barrett
Yr Athro Maurice Broadie
Mrs Ceinwen Davies
Ms Annmarie Dixon-Barrow
Mr John Ashton-Edwards, OBE
Ms S. Meryl Evans
Mr Stuart Etherington
Mr Gareth Ioan
Mr Phil Jarrold
Mrs Margaret Jervis
Mr John R. Jones
Ms Margaret Knight
Mr Roy Norris
Mr John Payne
Mr D. Marc Phillips
Mr John Puzey
Mr Drew Reith
Ms Jenny Render
Mr Ken Savage
Mrs Margaret Thorne, OBE, DL
Mr Merfyn Williams
Mr Alistair Wood, MBE

Aseswyr y pwyllgor gwaith
Mr David G. Evans, y Swyddfa Gymreig
Mrs Barbara M. Wilson, y Swyddfa Gymreig

Archwilwyr
Messrs. Zeidman & Davis

Bancwyr
Banc Barclays ccc
Banc National Westminster ccc



Mr John Ashton-Edwards, OBE



Mrs Margaret Jervis



Mr D. Marc Phillips



Mrs Margaret Thorne, OBE, DL

Staff

Y gyfarwyddiaeth

Graham Benfield Cyfarwyddwr
Jan Bish Cynorthwy-ydd personol y cyfarwyddwr a swyddog personel

Polisi cymdeithasol a gwirfoddoli

Peter Bryant Swyddog datblygu cenedlaethol
Alice Greenlees Swyddog hyfforddiant gwaith cymunedol
Sue Pickavance Swyddog datblygu gwirfoddoli
Simon Thomas Swyddog datblygu gwrth-dlodi

Y gymuned a pholisi lleol

Michael Palmer Swyddog Gogledd Cymru
Ellen ap Gwynn Swyddog materion gwledig
Simon Thomas Swyddog datblygu'r iaith Gymraeg (hyd at Fawrth 96)
Sioned Hughes Swyddog datblygu'r iaith Gymraeg (o Fawrth 96 ymlaen)
Sue Thomas Cynorthwy-ydd gweinyddol

Yr economi a'r polisi ariannu

Dewi Llwyd Evans Swyddog Ewropeaidd
Margaret Bond Swyddog cyngor cyllidol
Ingela Mann Cynorthwy-ydd gweinyddol
Stan Salter Gweinyddydd y gronfa
Sarah Stephens Swyddog nawdd Ewropeaidd

Cyfathrebu

Lindsey Williams Swyddog cyfathrebu
Ruth Marks Swyddog hyfforddiant a chynadleddau (hyd at Orffennaf 95)
Eileen Murphy Swyddog hyfforddiant a chynadleddau (o Ionawr 96 ymlaen)
Penny Taylor Swyddog y wasg a chyhoeddiadau (hyd at Fai 95)
Eilir Ann Daniel Swyddog cyhoeddiadau (o Awst 95 ymlaen)
Wendy Flynn Swyddog y wasg a chysylltiadau cyhoeddus (o Fedi 95 ymlaen)

Ymchwil a gwybodaeth

Lynda Garfield Rheolwr gwybodaeth ac ymchwil

Cyllid a gweinyddiaeth

Douglas Morris Rheolwr cyllid/ysgrifenydd y cwmni
Vida Davies Cynorthwy-ydd cyllid
Wendy Gilbert Cynorthwy-ydd gweinyddol
Anne Greenway Gwasanaethau glanhau swyddfeydd
Les Greenway Gwasanaethau glanhau swyddfeydd
Ron Pask Diogelwch swyddfeydd
Kathryn Price Gweithiwr swyddfa iau/teleffonydd/croesawydd
Diane Roberts Gweinyddwraig
Kathryn Thomas Cynorthwy-ydd clerigol
Caroline Walder Hyfforddai cynllun hyfforddi'r ifanc



Sue Pickavance



Michael Palmer



Sioned Hughes



Stan Salter



Lindsey Williams



Lynda Garfield